# PROSBECTWS
## PROSPECTUS




# Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

GLANTAF

Coron Gwlad ei Mamiaith

# CROESO
# Welcome

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Pleser yw eich croesawu i Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf drwy dudalennau'r prosbectws hwn. Rydym yn anelu i roi blas ar natur a'r cymeriad llawen sydd i'w weld yma yng nghymuned Glantaf. Hoffwn eich llongyfarch ar ddewis addysg cyfrwng Cymraeg gan ei fod yn cynnig posibiliadau gwerthfawr a photensial cyffrous ar gyfer dyfodol eich plentyn. Mae addysg cyfrwng Cymraeg yn agor drysau ar gyfer plant a phobl ifanc i fwynhau gweithgareddau amrywiol, ac yn rhoi cyfle iddyn nhw ddatblygu sgiliau dwyieithog ar gyfer eu llwybr gyrfa a'u dyfodol.

Mae gan Glantaf hanes cyfoethog iawn. Mae hyn i'w weld drwy ein cyfraniad a llwyddiant academaidd ac allgyrsiol yma yng Nghaerdydd. Mae'r ysgol wedi gweld rhagoriaeth o fewn pob maes academaidd, ac wedi ysbrydoli a chefnogi ein disgyblion i barhau gyda'u hastudiaethau mewn gwahanol feysydd yng Nghymru neu ledled y byd. Mae bwrlwm gweithgareddau hefyd yn ymestyn tu hwnt i'r ystafell ddosbarth ac edrychwn ymlaen at gynnig cyfleoedd cyffrous o fewn byd chwaraeon, diwylliant, cerddoriaeth a pherfformio, gwyddorau a mathemateg, technoleg a thechnoleg ddigidol, ac wrth gwrs, cyfleoedd gyda'r Urdd, y Fenter Iaith a phartneriaid eraill.

Felly croeso i Lantaf, edrychwn ymlaen at weithio'n agos gyda chi mewn partneriaeth glos dros y blynyddoedd nesaf. Yn y cyfamser, ewch draw i'n gwefan am gysylltiadau i gylchlythyron a gwybodaeth ddiweddaraf am weithgaredd yr ysgol.

Croeso i Glantaf!

---

*Dear Parent / Guardian,*

*I am pleased, through the pages of this prospectus, to welcome you to Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf. We aim to give you a taste of the nature of our school, and indeed, the unique character that can be found here in our community. I congratulate you on choosing Welsh-medium education as it offers valuable possibilities and exciting potential for your child's future. Welsh-medium education opens doors for children and young people to enjoy various activities, and give them the opportunity to develop bilingual skills, which can be beneficial in their future lives and careers.*

*Glantaf has a rich history. This can be seen through our contribution and success in academic and extra-curricular provision here in Cardiff. The school has seen excellence in all academic specialisms, and has inspired and supported our pupils to continue their studies in different career pathways in Cymru or around the world. The scope of activities also extends beyond the classroom and we look forward to offering exciting opportunities within the sphere of sport, culture, music and performance, science and mathematics, digital technology and technology, and of course, opportunities with the Urdd, Menter Iaith and other partners.*

*Welcome to Glantaf, we look forward to working closely with you over the next few years. In the meantime, visit our website for links to newsletters and up-to-date information about the school's activity.*

*Croeso i Glantaf!*

Yn gywir / *sincerely*
Matthew H T Evans

Pennaeth Gweithredol / *Executive Head*



# GWELEDIGAETH



# OUR VISION

Ein gweledigaeth yw datblygu dinasyddion iach, uchelgeisiol, croesawgar a Chymreig sy'n falch o hanes a diwylliant cyfoethog ein cefndiroedd, ein prifddinas a'n gwlad. Cefnogwn bob aelod i gyfrannu'n llawen at fwrlwm cymuned yr ysgol, i fwynhau dysgu a dyfalbarhau ac i fod yn garedig. Ein nod yw creu awyrgylch dysgu cynhwysol a chefnogol lle caiff pob unigolyn ei werthfawrogi.

*Coron Gwlad ei Mamiaith*
*A Country's Crown is its Mother Language*

*Our vision is to develop healthy, ambitious, welcoming Welsh citizens who are proud of the rich history and culture of our communities, capital city and country. We support all members to contribute enthusiastically to our vibrant school community, to enjoy learning and to embrace perseverance and kindness. We aim to create an inclusive and supportive learning environment where all individuals are valued.*

GLANTAF

# CYMREIG




# WELSH

**'...datblygu dinasyddion croesawgar a Chymreig sy'n falch o hanes a diwylliant cyfoethog ein cefndiroedd, ein prifddinas a'n gwlad'**

*'...developing welcoming Welsh citizens who are proud of the rich history and culture of our communities, capital city and country'*

## PAM DEWIS ADDYSG GYMRAEG?

Mae addysg Gymraeg yn parhau i dyfu mewn poblogrwydd yng Nghymru. Mae mwyafrif helaeth y disgyblion yng Nglantaf (80%+) yn dod o deuluoedd lle nad y Gymraeg yw prif iaith y cartref. Dangosa hyn bod sgiliau cyfrwng Cymraeg dwyieithog yn ychwanegu gwerth at addysg, llwyddiant a chyfleoedd unigolyn.

## BUDDION

- Cysylltu'n uniongyrchol â threftadaeth a diwylliant Cymru. Ym Mlwyddyn 7, mae disgyblion yn dilyn cwrs 'Coron Gwlad'. Cwrs arloesol lle caiff disgyblion y cyfle i ddod i adnabod eu cyfoedion, eu hysgol, eu hardal a'u gwlad yn well. Mae'r pwyslais ar waith llafar a chreadigrwydd ac yn ystod y flwyddyn, bydd amrywiol gyfleoedd i ddysgu am ein prifddinas a'n gwlad. Bydd disgyblion yn ymweld â sefydliadau lleol; yn trafod a dysgu am faterion lleol, cenedlaethol a byd-eang; yn dysgu anthem yr ysgol yn ogystal â dysgu am ieithoedd gwahanol.
- Mwy o gyfleoedd allgyrsiol yn yr ysgol ac o fewn y gymuned ehangach e.e. Menter Iaith, yr Urdd a chymdeithasau, sefydliadau a grwpiau Cymraeg.
- Cyfleoedd estynedig o ran swyddi a gyrfa.
- Datblygu medrau meddwl o ran hybu dwyieithrwydd ac amlieithrwydd.
- Meithrin perspectif ehangach ar faterion Cymreig, Prydeinig, Ewropeaidd a Byd-eang
- Cynyddu gwerthfawrogiad o gyfoeth, amrywiaeth a dyfnder hunaniaeth a threftadaeth Cymru i gynnwys grwpiau ethnig a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol fel rhan annatod o hunaniaeth gyfoes Cymru.

## WHY CHOOSE WELSH- MEDIUM EDUCATION?

*Welsh-medium education continues to grow in popularity in Wales. The vast majority of pupils in Glantaf (80%+) come from families where Welsh is not the main language of the home. This shows that bilingual and Welsh-medium skills add value to an individual's education and future success while providing a wealth of opportunities.*

## BENEFITS

- *Connect directly with Welsh heritage and culture. In Year 7, pupils study 'Coron Gwlad', an innovative course where pupils have the opportunity to explore their school, community and country. The emphasis is on oral work and creativity and during the year, there are various opportunities to learn about our capital city and our country. Pupils will visit their local area; discuss and learn about local, national and global issues, learn the school anthem as well as explore different languages.*
- *More opportunities in school and within the wider community e.g. Menter Iaith, the Urdd and Welsh organisations.*
- *Increase job and career prospects.*
- *Promote thinking skills through bilingual and multilingual learning.*
- *Develop a wider perspective on Welsh, British, European and Global issues*
- *Deepen appreciation of the wealth, diversity, identity and heritage in Wales to include ethnic groups and groups without adequate representation, as an integral part of contemporary Welsh identity.*







## SUT GALLAF GEFNOGI FY MHLENTYN?

- Mae amrywiaeth eang o adnoddau, technoleg a chymorth unigol i helpu disgyblion e.e. Hwb, Cysill a Cysgair, Porth Termau ac apiau yn y Gymraeg.

- Pwysleisio pwysigrwydd defnyddio'r iaith yn gyson yn yr ysgol a thu allan pan mae'n bosib.

Annog eich plentyn i:
- ymuno â chymaint o weithgareddau allgyrsiol â phosib, o fewn a thu allan i'r ysgol.
- darllen Cymraeg yn gyson e.e. llyfrau Cymraeg (ar gael o siopau/llyfrgelloedd lleol), deunyddiau ffeithiol ar y we e.e. BBC Cymru Fyw
- gwylio a gwrando ar raglenni Cymraeg e.e. Radio Cymru, podlediadau amrywiol, S4C.

## HOW CAN I SUPPORT MY CHILD?

- *There are a wide range of individual resources, technologies and support to help pupils e.g. Hwb, Cysill and Cysgair, Porth Termau and apps in Welsh.*

- *Emphasise the importance of using the language consistently in school and in their free time, where possible.*

*Encourage your child to:*
- *join as many extra-curricular activities as possible, both within and outside the school.*
- *read Welsh regularly e.g. Welsh books (available from local shops/libraries), factual materials online e.g. BBC Cymru Fyw*
- *watch and listen to Welsh language programmes e.g. Radio Cymru, various podcasts, S4C.*

# UCHELGEISIOL



# AMBITIOUS

**'...datblygu dinasyddion iach
ac uchelgeisiol sy'n mwynhau dysgu a dyfalbarhau'**

*'...develop healthy and ambitious citizens who enjoy learning and persevering'*





## DYSGU AC ADDYSGU

Ein nod yw i sicrhau bod pob dysgwr yn cael mynediad i gwricwlwm eang, cytbwys a heriol. Rydym yn cydnabod mai egwyddor sylfaenol dysgu ac addysgu yw'r agwedd bwysicaf yn ein hysgol, ac sy'n graidd i ddatblygiad academaidd, emosiynol, ac ysbrydol pob dysgwr.

Rhan annatod o'n gweledigaeth addysgeg yw gwella medrau siarad a gwrando ein dysgwyr – defnyddir egwyddorion Llais 21 i hybu hyder a medredd dysgwyr ar lafar er mwyn gwella symudedd cymdeithasol, lles a chodi safonau academaidd.

Cynllunnir dysgu yn ofalus gan ein hathrawon yn seiliedig ar anghenion a lefelau dealltwriaeth presennol dysgwyr trwy ddefnyddio strategaethau asesu a gwahaniaethu effeithiol. Cynigir ystod cwricwlaidd eang ar draws 6 Maes Dysgu a Phrofiad er mwyn cynnig profiadau dysgu amrywiol a chyfoethog, gan annog dysgwyr i fod yn chwilfrydig ac angerddol dros eu dysgu.

Rydym yn uchelgeisiol dros bob un o'n dysgwyr, mae ein hathrawon yn sicrhau eu bod yn addysgu i'r brig er mwyn annog dysgwyr i wireddu eu potensial.

## TEACHING AND LEARNING

*We aim to ensure that all learners have access to a broad, balanced and challenging curriculum. We recognise as a fundamental principle that teaching and learning is the most important aspect of our school, and is key to the academic, emotional and spiritual development of all learners.*

*An integral part of our pedagogical vision is to improve our learners oracy skills – we use the principles of 'Voice 21' to boost learners' confidence and competence when speaking, with the aim of improving social mobility, wellbeing and raising academic standards.*

*Learning is carefully planned by our teachers based on learners' current needs and levels of understanding and ensures a responsive teaching approach based on effective assessment and differentiation strategies. We offer a broad curriculum across 6 Areas of Learning and Experience, ensuring a rich and varied experience that encourages pupils to be inquisitive and passionate about their learning.*

*We are ambitious for all of our learners, and our teachers aim to teach to the top in order to encourage learners to realise their potential.*





## CYFLE CYFARTAL A CHYNHWYSIANT

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yn ymrwymedig i sicrhau cydraddoldeb addysg a chyfleoedd cyfartal i'r holl ddysgwyr, staff, rhieni a gwarcheidwaid, beth bynnag yw eu hanableddau, hil, rhyw, rhywedd, oedran, tueddfryd rhywiol, crefydd neu gred. Rydym yn hybu diwylliant cynhwysol sy'n galluogi pob unigolyn i gymryd rhan fel aelod gwerthfawr o gymuned yr ysgol. Rydym yn hyrwyddo ymagweddau cadarnhaol tuag at wahaniaethau ac yn hybu parch tuag at bawb. Gofynnwn i bob rhiant ac ymwelydd i'n hysgol barchu ein hymrwymiad.

Mae pob un o'r nodweddion hyn a warchodir wedi eu hintegreiddio'n amlwg yn ein cwricwlwm Iechyd a Lles, hyfforddiant staff, grwpiau Llais y Disgybl, ymyraethau cefnogi cyfoedion, gwasanaethau a gweithgareddau cyfoethogi. Ceir manylion pellach yn ein Polisi Cyfle Cyfartal.

Mae gennym ddiwylliant o gynhwysiant ac amrywiaeth sy'n galluogi pawb sy'n gysylltiedig gyda'r ysgol i gyfranogi'n llawn, derbyn yr addysg orau a theimlo'n falch o'u hunaniaeth.

## EQUALITY OF OPPORTUNITY AND INCLUSION

*Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf is committed to ensuring equality in education and equal opportunities for all learners, staff, parents and guardians, regardless of disability, race, gender, sexuality, age, sexual orientation, religion or belief. We promote an inclusive culture that enables all individuals to participate as valued members of the school community. We promote positive approaches to differences and promote respect for all. We ask all parents and visitors to our school to respect our commitment.*

*All of these protected characteristics are clearly integrated into our Health and Wellbeing curriculum, staff training, Pupil Voice groups, peer support interventions, services and enrichment activities. Further details can be found in our Equal Opportunities Policy.*

*We have a culture of inclusion and diversity that enables everyone involved with the school to participate fully, receive the best education and feel proud of their identity.*





# CEFNOGAETH



# SUPPORT

**'...i fod yn garedig ac i greu awyrgylch dysgu cynhwysol a chefnogol lle caiff pob unigolyn ei werthfawrogi'**

*'...to be kind and to create an inclusive and supportive learning environment where all individuals are valued'*





# CYMUNED



# COMMUNITY

**‘Cefnogwn bob aelod i gyfrannu’n llawen at fwrlwm cymuned yr ysgol ac i fod yn garedig’**

*‘We support all members to contribute enthusiastically to our vibrant school community and to embrace kindness’*





## DARPARIAETH LLES A CHEFNOGAETH FUGEILIOL

Mae ein **tiwtoriaid personol** yn chwarae rhan hanfodol i ddarparu cefnogaeth ac arweiniad i’w disgyblion. Mae eu cyfrifoldebau yn cynnwys cadw cofnod o les, gwisg, presenoldeb disgyblion a chydweithio clos gyda’r Arweinwyr Cynnydd a Lles.

Bydd disgyblion yn aros yn yr un dosbarthiadau cofrestru drwy flynyddoedd 7 - 11. Bydd tiwtor personol yn dod i adnabod pob unigolyn yn ei ddosbarth yn dda. Bydd bob amser yn barod i wrando a chynnig cyngor ynglŷn â gwaith ysgol neu broblemau personol.

Atgyfnerthir gwaith a gofal y Tiwtor Personol gan yr **Arweinwyr Cynnydd a Lles**. Mae gan bob blwyddyn ei Arweinydd Cynnydd a Lles sy’n gweithio ar y cyd gyda’r Arweinwyr Cwricwlwm. Maen nhw’n monitro a chefnogi disgyblion i’w galluogi i gyrraedd eu potensial. Nhw yw’r pwynt cyswllt cyntaf i ddisgyblion a rhieni sy’n wynebu anawsterau neu sydd angen cymorth yn yr ysgol.

Gwnawn ein gorau i greu hinsawdd lle mae disgyblion yn barod i drafod eu teimladau. Rydym felly yn cynnig **ymyraethau lles a iechyd meddwl** penodol, rhai ar sail cefnogaeth un-i-un, eraill mewn grwpiau.

Darperir rhain yn fewnol gan staff a hefyd gan gyfoedion a thrwy bartneriaeth gydag asiantaethau allanol:
- Talkabout (sgiliau cymdeithasol)
- Gweithiwr Allweddol (Cefnogaeth ychwanegol)
- ELSA (Llythrennedd Emosiynol)
- Cynllun ‘Bydi’ Mentoriaid Cymar
- Cynllun Seren gyda chynllun Mentoriaid Cymar, ffocws ar wrth-fwlio
- Gweithdai rheoli tymer
- Gwasanaeth Cwnsela’r Sir
- Gwasanaeth nyrs ysgol
- Gwasanaeth Iechyd Meddwl (CAHMS)
- Mynd i ystafell dawel y **Ganolfan Les** amser egwyl a chinio.

## WELFARE PROVISION AND PASTORAL SUPPORT

*Our **personal tutors** play a vital role in providing support and guidance to their pupils. Their responsibilities include keeping a record of pupils’ welfare, uniform, attendance and working closely with their Progress and Wellbeing Leaders.*

*Pupils will remain in the same registration classes through years 7 - 11. A personal tutor will get to know each individual in their class well. They will always be willing to listen and offer advice about school work or personal problems.*

*The work and support of the Personal Tutor is reinforced by the **Progress and Wellbeing Leaders.** Each year group has their Progress and Wellbeing Leader who work collaboratively with the Curriculum Leaders. They monitor and support pupils to enable them to reach their potential. They are the first point of contact for pupils and parents who are experiencing difficulties or need support in school.*

*We aim to create a climate where children are willing to discuss their feelings safely and confidently. We therefore offer specific **wellbeing and mental health interventions,** some on the basis of one-to-one support, others in group work.*

*These are provided by staff and also by peers and through partnership with external support:*
- *Talkabout (social skills)*
- *Key Worker (Additional support)*
- *ELSA (Emotional Literacy)*
- *‘Buddy’ provision (Peer Mentors)*
- *Seren scheme with Peer Mentor scheme, focus on anti-bullying*
- *Anger management workshops*
- *County Counselling Service*
- *School nurse service*
- *Mental Health Service (CAHMS)*
- *Access to our **Wellbeing Hub** during break and lunch.*

## GWEITHGAREDDAU ALLGYRSIOL

Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol o fudd i ddatblygiad cymdeithasol myfyrwyr. Mae'n gyfle i adeiladu sgiliau gwaith tîm a gwella cyfathrebu. Mae'r gweithgareddau yn hybu perfformiad academaidd; rhoi cyfle i ddisgyblion archwilio diddordebau newydd; a datblygu sgiliau estynedig sy'n gallu arwain at wella hyder a hunan werth yr unigolyn.

**Ein nod** yng Nglantaf yw rhoi addysg gyflawn i bob disgybl a chânt y cyfle i ddatblygu eu dawn a'u hyder mewn nifer helaeth o feysydd y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

- Ceir gweithgareddau llys e.e. Traws Gwlad, Eisteddfod, Athletau.
- Mae amserlen allgyrsiol yr Adran Addysg Gorfforol yn rhoi cyfle i bawb gymryd rhan mewn amrywiol gampau a cheir gemau/cystadlaethau cyson rhwng gwahanol ysgolion.
- Cynhelir gweithgareddau Celfyddydau Mynegiannol yn gyson gan roi cyfleoedd i ddisgyblion fod yn aelodau o bartïon canu a chorau, grwpiau drama, celf neu gerddorfa.
- Cefnogir amrywiol weithgareddau'r Urdd
- Ceir llawer o weithgareddau gyrfaoedd e.e. ffeiriau gyrfaoedd, gweithgareddau STEM a gweithdai ymarferol.
- Mae pwyllgorau gwahanol i'r disgyblion fod yn aelodau ohonynt e.e. Fforymau Blwyddyn, Senedd Ysgol, Senedd Gwrth-Hiliaeth a Chynhwysiant ac amrywiol grwpiau.
- Mae ymweliadau (lleol / yng Nghymru/ tramor) yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ehangu eu gorwelion e.e. canolfannau awyr agored, cyrsiau maes, sefydliadau gwahanol, gwobr Dug Caeredin.

Edrychwn ymlaen at eich gweld yn ein perfformiadau cyhoeddus sy'n adlewyrchu doniau'r disgyblion ar draws y cwricwlwm ac yn amlygu cyfraniad ac ymroddiad llawer o adrannau.

## EXTRACURRICULAR ACTIVITIES


*Participating in extracurricular activities is beneficial to students' social development. Group activities build team-work and communication skills, which are necessary for success in the workplace and future careers. The activities boost academic performance; give pupils a chance to explore new interests; and create broader perspectives that can lead to higher levels of confidence and self esteem.*

*Our aim at Glantaf is to provide a well-rounded education for all pupils where they have the opportunity to develop their skills and confidence in a broad range of contexts outside the classroom.*

- *There are house activities in the school e.g. Cross Country, Eisteddfod, Athletics.*
- *The PE Department's extracurricular timetable gives everyone the opportunity to participate in various sports and numerous games/ competitions between different schools.*
- *Expressive Arts activities are held providing opportunities for pupils to be a member of drama or art groups, choirs, bands and orchestral groups.*
- *We support the Urdd's various activities*
- *There are many careers activities e.g. careers fairs, STEM activities and practical workshops.*
- *Different student forums to foster pupil voice e.g. Year Forums, School Senedd; Anti-Racism and Inclusion Senedd and various sub-committees*
- *Local and foreign school visits give pupils opportunities to extend their horizons in e.g. outdoor pursuit centres, field trips, Duke of Edinburgh Award and numerous others.*

*We look forward to welcoming you to our public performances which reflect pupils' talents across the curriculum and underline the contribution and commitment of many departments.*

# CYFRANNU




# CONTRIBUTE

**'...i gyfrannu'n llawen at fwrlwm cymuned yr ysgol'**

*'...to contribute enthusiastically to our vibrant school community'*









# Y GANOLFAN





**'...lle caiff pob unigolyn ei werthfawrogi'**

*'...where all individuals are valued'*









## CANOLFAN GLANTAF

Mae Canolfan Glantaf yn cynnig darpariaeth arbenigol ar gyfer disgyblion ag ADY rhwng 11 a 19 oed mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg bywiog a llwyddiannus yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf.

Mae'n fraint in ni gael Canolfan Adnoddau Arbenigol ar gyfer dysgwyr ag anghenion dwys a chymleth ynghyd a dysgwyr gyda Awtistiaeth o fewn cymuned yr ysgol. Ariennir hyn gan Gyngor Sir Caerdydd a dyma'r unig Ganolfan Arbenigol cyfrwng Cymraeg yn Ne-ddwyrain Cymru. Mae dysgwyr sy'n elwa o gael mynediad i'r Ganolfan hefyd yn cael mynediad llawn i gyfleusterau ysgol ehangach ac maent wedi'u cynnwys yn llawn yng ngweithgareddau ein hysgol.

Mae gan Ganolfan Glantaf enw da am ei darpariaeth, ei chefnogaeth a'i gofal ac mae ganddi sawl cryfder, yn enwedig ei staff profiadol ac arbenigol sy'n gofalu, herio a meithrin ein dysgwyr.

- Safon uchel y ddarpariaeth
- Canmoliaeth gan Estyn ac yn uchel ei pharch o fewn y sector
- Yn darparu ar gyfer sbectrwm o anghenion ADY dwys ac Awtistiaeth
- Gofal bugeiliol a chynhwysiant yng nghalon cymuned yr ysgol
- Cymorth a chynhwysiant integredig o fewn y brif ffrwd ac ym mywyd beunyddiol yr ysgol
- Darpariaeth bwrpasol i bob myfyriwr
- Mae mwynhau'r celfyddydau a pherfformio yn elfen allweddol wrth feithrin hunanhyder disgyblion
- Mae arbenigedd ac ymgysylltiad staff yn sicrhau ystod eang o brofiadau bywyd go iawn i ddisgyblion.
- Cefnogaeth ac ymgysylltiad rhieni
- Pontio cynradd i uwchradd llwyddiannus
- Staff profiadol ac ymroddedig

## CANOLFAN GLANTAF

*Canolfan Glantaf offers specialist provision for pupils with ALN aged between 11 and 19 years, within a vibrant and successful Welsh Medium setting at Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf.*

*We are privileged to have a Specialist Resource Base (SRB) for learners with severe and complex needs and for learners with Autism within the school community. This is funded by Cardiff County Council and is the only Welsh-medium SRB in South East Wales. Learners who benefit from access to the SRB also have full access to our wider school facilities and are fully included in our school's activities.*

*Canolfan Glantaf is highly regarded within the sector for its provision, support and care and has several strengths not least its experienced and specialist staff who care for, challenge and nurture our learners.*

- *High standard of provision*
- *Commended by Estyn and highly regarded within the sector*
- *Caters for spectrum of ALN and Autism needs*
- *Pastoral care and inclusion in school community*
- *Integrated support and inclusion within mainstream and in daily school life*
- *Bespoke provision for students*
- *Enjoying the Arts and Performance are key drivers in building pupils' self-confidence*
- *Staff expertise and engagement ensures broad range of real-life experiences for students*
- *Parental support and engagement*
- *Successful primary to secondary transition*
- *Experienced and dedicated staff*





## CWRICWLWM YR YSGOL
Cynigir cwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol drwy'r ysgol.

## BLYNYDDOEDD 7, 8 A 9
Pynciau: Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Ffrangeg neu Almaeneg, Hanes, Addysg Grefyddol, Daearyddiaeth, Celf, Cerddoriaeth, Drama, Dylunio a Thechnoleg, Technoleg Gwybodaeth, Addysg Gorfforol, Lles. Coron Gwlad (Bl.7).

Trefnir blynyddoedd 7,8 a 9 yn dri band dysgu sydd yn gyfartal o ran ystod gallu. Yn y mwyafrif o'r pynciau, dysgir y disgyblion o fewn eu dosbarthiadau cofrestru. Mae Mathemateg yn cael ei setio o Fl. 7 a Chymraeg o Fl. 8.

Ar ddiwedd Bl. 8 , caiff dysgwyr ddewis 4 pwnc allgraidd i'w cymryd ym Ml. 9.

## BLYNYDDOEDD 10 A 11
Gorfodol : Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Addysg Grefyddol, Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru, Lles.

## BLYNYDDOEDD 12 A 13
Caiff y disgyblion ddewis 3-4 pwnc.

## DIOGELU PLANT
Rydym yn llwyr ymrwymiedig i ddilyn Gweithdrefnau Diogelu Cymru a chanllawiau Llywodraeth Cymru 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel'. Egwyddorion craidd Polisi Amddiffyn a Diogelu Plant yr ysgol yw i sicrhau fod iechyd, diogelwch a lles ein plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth i'r holl oedolion sy'n gweithio yng Nglantaf.

## THE SCHOOL CURRICULUM
*We offer a broad, balanced and relevant curriculum throughout the school.*

## YEARS 7,8 AND 9
*Subjects: Welsh, English, Mathematics, Science, French or German, History, Religious Education, Geography, Art, Music, Drama, Design and Technology, Information Technology, Physical Education, Well-being, Coron Gwlad (Yr 7).*

*Years 7, 8 and 9 are organised into three teaching bands of equal ability range. Teaching classes are mainly based on registration classes in Yrs 7 + 8 which are mixed ability. Mathematics has ability sets from Yr 7 and Welsh from Yr 8.*

*At the end of Yr 8, learners are able to choose 4 non-core subjects to continue in Yr 9.*

## YEARS 10 AND 11
*Core subjects : Welsh, English, Mathematics, Science, Religious Education, Welsh Baccalaureate Skills Challenge Certificate, Well-being.*

## YEARS 12 AND 13
*Learners are able to choose 3-4 subjects.*

## CHILD PROTECTION
*We are fully committed to following the Welsh Safeguarding Procedures and the Welsh Government guidance 'Keeping Learners Safe'. The core principles of the school's Child Protection and Safeguarding Policy are to ensure that the health, safety and welfare of our children and young people is a priority to all adults working at Glantaf.*







# PARTNERIAETH

# PARTNERSHIP

**'Ein nod yw creu awyrgylch dysgu cynhwysol a chefnogol'**

*'We aim to create an inclusive and supportive learning environment'*

## PARTNERIAETH YSGOL A CHARTREF
Yng Nglantaf, rydym yn anelu at feithrin a chynnal partneriaeth agos gyda rhieni er mwyn cefnogi cynnydd a lles pob disgybl o fewn cymuned yr ysgol. Dim ond drwy bartneriaeth gefnogol ac adeiladol a thrwy gyfathrebu cyson rhyngddom y mae modd sicrhau bod disgyblion yn cael y gefnogaeth orau a mwyaf addas ar eu cyfer. Mae croeso i chi i gysylltu â ni a threfnu apwyntiad i drafod unrhyw bryder neu ymholiad ymhellach.

Byddwn yn cysylltu â chi drwy gydol y flwyddyn gyda manylion **Nosweithiau Rhieni** a **Nosweithiau Gwybodaeth**. Byddwn hefyd yn anfon **Adroddiadau Interim** atoch ac **Adroddiad Llawn** ar gynnydd eich plentyn. Bydd pob plentyn hefyd yn derbyn **'Llyfr Cyswllt'** sy'n ddyddiadur pwysig i gysylltu ysgol a chartref.

## GWISG YSGOL
Mae ein gwisg ysgol yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ac mae rhestr gyflawn ar ein gwefan.
Ein cyflenwr dynodedig yw YC Sports, 90 Crwys Rd, Caerdydd CF24 4NP

## HOME AND SCHOOL PARTNERSHIP
*At Glantaf we aim to foster and maintain a close partnership with parents to support the progress and wellbeing of all pupils within the school community. It is only through a supportive and constructive partnership and through regular communication that pupils can be ensured the best and most suitable support.*
*We welcome you to contact us at the school to arrange an appointment to discuss any concern or enquiry.*

*We will contact you during the year with details of* ***Parents' Evenings*** *and* ***Information Evenings.*** *We will also send you* ***Interim Reports*** *and a* ***Full Report*** *on your child's progress. All pupils are also given a* ***'Contact Book'*** *which is an important diary to link home and school directly.*

## SCHOOL UNIFORM
*Our uniform complies with existing Welsh Government guidance and full details are available on our website.*
*Our designated supplier is YC Sports, 90 Crwys Rd, Cardiff CF24 4NP*

**Ysgol Gyfun**
**Gymraeg Glantaf,**
Heol y Bont,
Ystum Taf,
Llandaf,
Caerdydd.
CF14 2JL

029 2033 3090

ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk

GLANTAF

Coron Gwlad ei Mamiaith

**Pennaeth Gweithredol / Executive Head**
Matthew H T Evans

**Pennaeth Ysgol / Head of School**
Dyfrig G Rees

Am fwy o fanylion ewch i'n gwefan /
*For more details visit our website:*

**www.glantaf.cymru**

*Dyluniwyd gan Lois Jones, Adran Dylunio a Thechnoleg Glantaf /*
*Designed by Lois Jones, Design and Technology Department Glantaf*